



Ein cyf/Our ref MA-P-LG-369117

Prif Swyddogion Cynllunio Cymru

25 Hydref 2017

Annwyl Apwethwyr

Ar 26 Medi, cyhoeddais dargedau uchelgeisiol ar gyfer ynni adnewyddadwy sy'n cynnwys gweld Cymru yn cynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddia drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2030<sup>1</sup>. Bydd hyn yn ein helpu i ddatgarboneiddio ein system ynni. Mae ein gallu i ddiwallu ein hanghenion drwy ddefnyddio ynni glân yn sail i economi carbon isel sy'n ffyniannus. Yn ei dro, bydd hyn yn golygu y bydd angen symud i ffwrdd o echdynnu tanwydd ffosil. O'r herwydd hynny hoffwn egluro ymhellach ein safbwynt yn y system gynllunio o ran defnyddio dulliau anghonfensiynol o echdynnu glo, olew a nwy ar y tir.

Er mwyn bod yn rhagofalus, mae dau Gyfarwyddyd Hysbysu wedi'u cyhoeddi sy'n ymwneud â defnyddio dulliau anghonfensiynol o echdynnu olew a nwy. Mae'r ddau Gyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru, pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried peidio â'u gwrthod.

Er mwyn cefnogi ein trywydd ar gyfer datgarboneiddio a nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd 2016, a rhoi effaith i'r ymrwymiad ym maniffesto Llywodraeth Cymru ar ffracio, bwriadaf ymgynghori ynghylch pa mor briodol fyddai diwygio'r polisi cynllunio ac a ddylai'r polisi cynllunio bellach gefnogi'r dulliau a ganlyn o echdynnu tanwydd ffosil: echdynnu olew a nwy mewn modd anghonfensiynol, gan gynnwys echdynnu nwy siâl neu fethan o'r haen lo a nweiddio glo dan ddaear; echdynnu glo.

Byddaf yn ymgynghori ar ddiwygiadau priodol i *Bolisi Cynllunio Cymru* fel rhan o'm hadolygiad maes o law.

*In gywir*  
*Lesley Griffiths*

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

<sup>1</sup> <http://gov.wales/about/foi/?skip=2017&lang=cy>